| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 10 Medi 2024 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Penodi Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am benodiad Cyfarwyddwr Bwrdd Cyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (y Bwrdd).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae swydd wag ar y Bwrdd ac mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi Cyfarwyddwr newydd i lenwi'r swydd wag honno.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi aelodau etholedig heb fod yn Aelod o'r Cabinet, i fod yn Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ('DLL').

3.2. Bod y Cyngor yn cadarnhau y bydd y Cyng Diane King yn parhau fel Cyfarwyddwr DLL ond yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 30 Mai 2019 fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo creu cwmni masnachu Awdurdod Lleol nid er elw cyfyngedig drwy warant fel model darparu amgen ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor. Gelwir y cwmni hwn yn Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL).

4.2. Y Cyngor yw unig berchennog ac aelod o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. Mae Erthyglau Cymdeithas y Cwmni yn nodi bod penodiad Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd yn fater i'r Cyngor benderfynu arno.

4.3. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd) yn gyfrifol am redeg y cwmni. Mae cyfansoddiad y Bwrdd ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Rheolwr Gyfarwyddwr - Jamie Groves,

Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, Cyng Rhys Thomas

Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyng Diane King

Cyfarwyddwr Annibynnol x 2 (Paul McGrady a Sian Rodgers),

Aelod etholedig nad yw ar y Cabinet - Swydd wag,

Aelod o'r Tîm Arwain Strategol - Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi

4.4. Mae'r swydd ar y Bwrdd i gael ei llenwi gan aelod etholedig nad yw ar y Cabinet yn wag ar hyn o bryd. Mae'r Cyng Diane King, a benodwyd gan y Cyngor i'r rôl hon bellach yn Aelod Cabinet. Mae'r Cyng Gill German wedi ymddiswyddo o'i sedd ar y Bwrdd o ganlyniad i'w hetholiad i'r Senedd.

4.5. Bydd y Cyng King yn aros ar y Bwrdd, ond bydd yn gwneud hynny yn ei swydd newydd fel Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd.

4.6. Mae'n ofynnol i'r Cyngor yn unol â hynny benodi aelod etholedig heb fod ar y Cabinet i Fwrdd DLL.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chraffu. Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ganfasio eu grwpiau am enwebiadau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes yna unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu cynnal i helpu i leihau'r risg wrth symud ymlaen.  Cefnogir yr adroddiad yn llwyr.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae yna risg na fydd swyddi gwag ar y Bwrdd yn darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol i DLL.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2 Erthygl 13 Erthyglau Cymdeithas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.